

## ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2014/15

<b>Cynghorydd: Dafydd Meurig</b>	<b>Grŵp: Plaid Cymru</b>																						
<b>Ward: Arllechwedd</b>																							
<b>Bwriad yr adroddiad blynyddol:</b> Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.																							
<b>Rol a chyfrifoldebau:</b> Cyn dod yn aelod o'r Cabinet yn Ionawr 2015, roeddwn yn aelod o'r Pwyllgorau Archwilio, Cynllunio, Craffu, Apelau, Pensiynau a Fforwm Ardal Bangor-Ogwen																							
<b>Gweithgareddau etholaethol:</b> <b>Llifogydd:</b> Sicrhau dylunio cynllun fydd yn atal llifogydd yn Nhalybont ac ar yr A55 yn y dyfodol. Yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r cynllun. <b>Bysus:</b> Cefnogi trigolion Abergwyngregyn yn dilyn penderfyniad Arriva i osgoi'r pentref. <b>Economi:</b> Cefnogi datblygwyr sydd â diddordeb sefydlu busnesau yn ystâd Parc Bryn Cegin. <b>Crymlyn:</b> Cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru eu bod am ddatrys problem ceir a loriau'n defnyddio'r lonydd culion rhwng Talybont ac Abergwyngregyn pan fo tagfa ar yr A55. <b>Band Llydan:</b> Parhau i bwysu ar BT i wella'r ddarpariaeth rhwng Llanllechid ac Abergwyngregyn. <b>Palmant:</b> Sicrhau palmant newydd ar hyd rhan o'r hen A55 rhwng Talybont a Llandygái, er mwyn gwella diogelwch y llwybr cerdded i'r ysgol. <b>Bin Halen:</b> Cael gosod bin halen yn Llanllechid mewn da bryd cyn y gaeaf. <b>Cynllunio:</b> Cynrychioli etholwyr gyda materion cynllunio yn Abergwyngregyn, Llanllechid a Phorth Penrhyn. <b>Cymorthfeydd:</b> Cynnal cymorthfeydd rheolaidd gydag Alun Ffred Jones AC a Hywel Williams AS yn Abergwyngregyn, Llandygái a Thalybont. <b>Cyffrediniol:</b> Rhoi cymorth i nifer o etholwyr gyda materion megis digartrefedd, tipio slei bach, torri coed, clirio afonydd, biniau baw ci, caeau chwarae, a gwlaau cocos Aber Ogwen.																							
<b>Mentrau a gweithgareddau eraill:</b> <b>Partneriaeth Ogwen:</b> Cyfarwyddwr y cwmni cymunedol sy'n ceisio dod a gwasanaethau yn ôl i ardal Dyffryn Ogwen. Uchafbwynt y flwyddyn oedd agor Swyddfa Ogwen ar Stryd Fawr, Bethesda, sydd wedi dod yn gartref i'r Heddlu a Chyngorau Cymuned yr ardal. <b>Cwmni Adwy:</b> Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y cwmni nid-am-elw sy'n gosod eiddo ar rhent fforddiadwy i fusnesau lleol yn hen ardaloedd chwareli Gwynedd. <b>Balchder Bro:</b> Wedi ymuno'n achlysurol gyda'r criw gwirfoddol sy'n tacluso a chasglu ysbwriel o gwmpas yr ardal. <b>Dim Peilonau:</b> Daeth llwyddiant i'r grŵp pwyso, pan gyhoeddodd Grid Cenedlaethol na fyddent yn codi peilonau trydan ar draws y Feni. Mae'r frwydr yn parhau ar dir Gwynedd. <b>Hydro Ogwen:</b> Aelod o'r tîm gwirfoddol sy'n datglybu cynllun hydro cymunedol ar yr Afon Ogwen. <b>Erydro Eira:</b> Aelod o'r grŵp cymunedol sy'n clirio palmentydd Dyffryn Ogwen pan fo eira. <b>Chwarel y Penrhyn:</b> Aelod o bwyllgor cyswllt sy'n rhannu gwybodaeth rhwng y Chwarel a'r gymuned. <b>Llandygái:</b> Aelod o bwyllgor Neuadd Talgái. Bum yn gweini yng nghinio Nadolig y pensiynwyr, ac yn cymryd rhan yn y bingo.																							
<b>Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:</b>																							
<table border="1"><thead><tr><th>PWYLLGOR</th><th>PRESENNOL</th></tr></thead><tbody><tr><td>Y Cyngor</td><td>4</td></tr><tr><td>Y Cabinet</td><td>4</td></tr><tr><td>Pwyllgor Craffu Corfforaethol</td><td>3</td></tr><tr><td>Pwyllgor Craffu Cymunedau</td><td>1</td></tr><tr><td>Pwyllgor Archwilio</td><td>1</td></tr><tr><td>Pwyllgor Cynllunio</td><td>8</td></tr><tr><td>Pwyllgor Apelau Cyflogaeth</td><td>1</td></tr><tr><td>Pwyllgor Pensiynau</td><td>2</td></tr><tr><td>Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu</td><td>3</td></tr><tr><td>Fforwm Ardal Bangor - Ogwen</td><td>2</td></tr></tbody></table>	PWYLLGOR	PRESENNOL	Y Cyngor	4	Y Cabinet	4	Pwyllgor Craffu Corfforaethol	3	Pwyllgor Craffu Cymunedau	1	Pwyllgor Archwilio	1	Pwyllgor Cynllunio	8	Pwyllgor Apelau Cyflogaeth	1	Pwyllgor Pensiynau	2	Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu	3	Fforwm Ardal Bangor - Ogwen	2	
PWYLLGOR	PRESENNOL																						
Y Cyngor	4																						
Y Cabinet	4																						
Pwyllgor Craffu Corfforaethol	3																						
Pwyllgor Craffu Cymunedau	1																						
Pwyllgor Archwilio	1																						
Pwyllgor Cynllunio	8																						
Pwyllgor Apelau Cyflogaeth	1																						
Pwyllgor Pensiynau	2																						
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu	3																						
Fforwm Ardal Bangor - Ogwen	2																						
Canran Presenoldeb: 83%																							

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir isod oherwydd:**

Bu i mi gollu dau gyfarfod oherwydd profedigaeth yn y teulu

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2  
 Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd 4  
 Pwyllgor Rheoli Traeth Lafan (Is-gadeirydd) 1  
 Bwrdd Trafnidiaeth Canolbarth Cymru 1  
 Gweithgor a sefydlwyd i ddatblygu'r wefan newydd  
 Gweithdai Cynllun Strategol y Cyngor  
 Seminar Sefyllfa Ariannol y Cyngor  
 Gweithdy i osod Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor  
 Seminar Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd  
 Seminar Llety Sipsiwn a Theithwyr  
 Gweithgor i edrych ar sut i wella rheolaethau'r Cyngor  
 Ymchwiliad Craffu 'Caffael Cynaliadwy'  
 Gweithdy Ad-drefnu Llywodraeth Leol  
 Sesiwn agored Cynllun Trafnidiaeth Lleol  
 Gweithdy ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithadol a Llesiant

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol canlynol:**

-

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd canlynol:**

-

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

<b>Corfforaethol</b>	<b>Dyddiad</b>
Strategaeth Wastraff	7/5/14
Arwain yn Ddiogel (Sesiwn penodol i'r Cabinet)	19/05/2015
Arwain Cymunedau trwy Newid	03/07/15
Gwe-Ddarlledu	26/11/2014
Rhaglen Ddatblygol Y Cabinet (Sesiwn i Aelodau Cabinet Newydd)	12/02/2015 a 9/3/2015
Rhiantu Corfforaethol	25/2/2015

<b>Ychwanegol</b>	<b>Dyddiad</b>
Hyfforddiant Cynllunio	21/05/2014
Gweithdy Diogelu Plant ac Oedolion Bregus	4/7/2014
Pendantrwydd a Delio hefo Pobl Anodd	20/03/2015
Y System Gynllunio	26/11/14

**Cyfanswm nifer o oriau: 47.50**